

SL(5)554 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y prif Reoliadau") OS 2020/353, a wnaed o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (fel y'i diwygiwyd), ac yn dod i rym am 4:00 p.m. ar 1 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau, ac mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys:

- (a) darpariaethau sy'n galluogi priodas neu bartneriaeth sifil pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol;
- (b) llacio'r gofyniad i aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol sy'n galluogi pobl i fod yn yr awyr agored at unrhyw ddiben o fewn eu hardal leol;
- (c) llacio'r cyfyngiad ar ymgynnull sy'n caniatáu i bersonau o ddim mwy na dwy aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored.

Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae hawliau'r Confensiwn y mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hwy yr un fath â'r rhai y mae'r Prif Reoliadau yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys yr hawliau a ganlyn o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop: Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei nodi: "Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur."

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi sylwebaeth ychwanegol Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch yr ystyriaethau Hawliau Dynol.



"Mae'r llacio rhannol ar y cyfyngiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, gan roi rhagor o gyfleoedd i bobl adael eu cartrefi a chwrdd â ffrindiau a theulu, er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

